***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2014 Rhif 1133 (Cy. 112)

# ADDYSG, CYMRU

## Gorchymyn Addysg (Ysgolion Bach) (Cymru) 2014

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *29 Ebrill 2014* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *30 Ebrill 2014* |
| *Yn dod i rym - -* | *22 Mai 2014* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt yn adran 15 a 32 o Fesur Addysg (Cymru) 2011(**1**) yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn.

**Enwi a chychwyn**

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Addysg (Ysgolion Bach) (Cymru) 2014 a deuant i rym ar 22 Mai 2014.

**Dull adnabod ysgolion bach a gynhelir yng Nghymru**

**2.**—(1) Mae'r erthygl hon yn diffinio ysgol fach a gynhelir yng Nghymru at ddibenion Pennod 1 o Ran 2 o Fesur Addysg (Cymru) 2011 ("Mesur 2011").

(2) Ysgol fach a gynhelir yw ysgol sydd â llai na 91 o ddisgyblion cofrestredig ar y trydydd dydd Mawrth yn y mis Ionawr yn union cyn y dyddiad y gwneir y cynnig o dan adran 11 o Fesur 2011.

*Huw Lewis*
Y Gweinidog Addysg a Sgiliau, un o Weinidogion Cymru

29 Ebrill 2014

(**1**) 2011 mccc 7.

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn darparu dull o adnabod ysgol fach a gynhelir at ddibenion Pennod 1 o Ran 2 o Fesur Addysg (Cymru) 2011 ("Mesur 2011"). Mae'r bennod honno yn nodi'r fframwaith statudol ar gyfer ffedereiddio ysgolion a gynhelir. Mae adran 11 o Fesur 2011 yn darparu y caiff awdurdod lleol wneud cynigion i ffedereiddio ysgolion ac nad yw darpariaethau penodol mewn perthynas â chyhoeddi ac ymgynghori yn gymwys i gynnig i ffedereiddio ysgolion bach yn unig.

Mae erthygl 2 yn darparu mai ysgol fach a gynhelir yw un sydd â llai na 91 o ddisgyblion cofrestredig ar y trydydd dydd Mawrth yn y mis Ionawr yn union cyn y dyddiad y gwneir y cynnig o dan adran 11 o Fesur 2011.